Ofcom
making communications work
for everyone

# Dyfarnu trwydded amlblecs radio ar raddfa fach: Casnewydd a Chas-gwent

## Cefndir

Mae Ofcom wedi penderfynu dyfarnu trwydded amlblecs radio ar raddfa fach newydd ar gyfer Casnewydd a Chas-gwent i Gwent Digital Broadcasting Limited.

Wrth ystyried y ceisiadau mae'n eu derbyn ar gyfer trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach, mae'n rhaid i Ofcom ystyried pob un o'r meini prawf statudol sydd wedi'u nodi yn adran 51(2) o Ddeddf Darlledu 1996 fel y mae wedi'i haddasu gan Orchymyn Amlblecs Radio ar Raddfa Fach a Radio Digidol Cymunedol 2019. Mae'r meini prawf fel a ganlyn:

1. maint ardal y ddarpariaeth (o fewn yr ardal neu'r gymdogaeth a bennir yn hysbysiad Ofcom yn gwahodd ceisiadau) y mae'r ymgeisydd yn cynnig ei chyflawni fel y nodir yn ei gynllun technegol a gyflwynwyd yn ei gais; (adran 51(2)(a))

2. gallu'r ymgeisydd i sefydlu'r gwasanaeth arfaethedig (adran 51(2)(c))

3. dymunoldeb dyfarnu'r drwydded i ymgeisydd:
    a. sy'n berson sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno, neu
    b. fel cyfranogwr, person sy'n darparu neu'n cynnig darparu gwasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno; (adran 51(2)(ca))

4. i ba raddau y mae tystiolaeth fod galw neu gefnogaeth ar gyfer darparu'r gwasanaeth arfaethedig ymysg pobl sy'n darparu neu'n cynnig darparu gwasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol neu leol yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno (adran 51(2)(f)) ac

5. a yw'r ymgeisydd drwy gontractio neu gynnig contractio gydag unigolion yn darparu neu'n cynnig darparu gwasanaethau rhaglenni sain digidol lleol neu gymunedol, wedi gweithredu mewn modd a luniwyd i sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny. (adran 51(2)(g)).

Nid yw'r ddeddfwriaeth yn rhoi'r gofynion hyn yn nhrefn blaenoriaeth, ond mae'n bosib y bydd Ofcom yn ystyried bod un neu fwy o'r meini prawf yn arbennig o bwysig oherwydd nodweddion y drwydded a fydd yn cael ei dyfarnu a'r ceisiadau amdani.

## Asesiad

Ar 14 Gorffennaf 2022, cyhoeddodd Ofcom hysbysiad yn gwahodd ceisiadau am drwyddedau i ddarparu gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach mewn ardaloedd gan gynnwys Casnewydd a Chas-gwent.

Erbyn y dyddiad cau, sef 14 Hydref 2022, roedd Ofcom wedi cael un cais ar gyfer Casnewydd a Chas-gwent. Daeth hwn gan Gwent Digital Broadcasting Limited ("Gwent Digital"). Roedd copi o rannau anghyfrinachol y cais ar gael i'r cyhoedd graffu arnynt ar wefan Ofcom, a gwahoddwyd sylwadau gan y cyhoedd fel sy'n ofynnol dan adran 50(7), er na dderbyniwyd unrhyw sylwadau am y cais.

Aseswyd manylion y cais gan gydweithwyr Ofcom, gan gynnwys cynnal asesiad o'r cynllun technegol y mae'n rhaid ei gyflwyno fel rhan o bob cais. Cafodd y penderfyniad mewn perthynas â Chasnewydd a Chas-gwent ei wneud gan banel o wneuthurwyr penderfyniadau Ofcom a ddaeth ynghyd ar 16 Rhagfyr 2022. Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r cais a'r cyngor proffesiynol gan gydweithwyr Ofcom, a chymhwyswyd y meini prawf statudol wrth benderfynu a oeddent am ddyfarnu trwydded ai peidio. Mae'r rhesymau dros eu penderfyniad i ddyfarnu'r drwydded i Gwent Digital wedi'u crynhoi isod.

Mewn perthynas ag adran 51(2)(a), cynigiodd yr ymgeisydd llwyddiannus ddefnyddio pedwar trosglwyddydd i ddarparu ei wasanaeth. Mae cyfrifiadau Ofcom yn dangos y byddai hyn yn golygu bod ychydig dros 73% o'r boblogaeth oedolion yn ardal y drwydded a hysbysebwyd yn gallu derbyn y gwasanaeth. Roedd rhagfynegiadau darpariaeth Ofcom yn dangos y byddai'r gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach arfaethedig ar gael i ymhell o dan 40% o'r boblogaeth yn ardal drwyddedig pob un o'r gwasanaethau amlblecs radio lleol sy'n gorgyffwrdd (De Ddwyrain Cymru a Swydd Gaerloyw), a bod gorlif y tu allan i'r ardal a hysbysebwyd ymhell o dan 30% o boblogaeth yr ardal a hysbysebwyd. Felly, ni fyddai angen unrhyw fesurau lliniaru i gydymffurfio â'r trothwyon hyn. Roedd Ofcom o'r farn y gallai fod angen mesurau lliniaru i fynd i'r afael ag ymyriant posibl rhwng sianeli a thorri tyllau[1], ond bod y materion hyn yn gymharol fach ac na fyddent yn debygol o leihau'r ddarpariaeth o fewn yr ardal a hysbysebwyd ond ychydig yn unig, i ychydig dan 73%. Roedd y gwneuthurwyr penderfyniadau o'r farn bod hyn yn cynrychioli lefel dda o ddarpariaeth mewn ardal â thopograffeg heriol, a safleoedd yr oedd yn ymddangos eu bod wedi'u dewis yn ddoeth i sicrhau darpariaeth dda i ganolfannau poblogaeth allweddol gan gynnwys Casnewydd, Cas-gwent a Chwmbrân.

Mewn perthynas ag adran 51(2)(c), ystyriodd Ofcom gynllun ariannol a busnes yr ymgeisydd, y cynllun technegol, yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r ddarpariaeth, a thystiolaeth o arbenigedd a phrofiad perthnasol. Nododd y gwneuthurwyr penderfyniadau fod risgiau mewn perthynas â sefydlu'r gwasanaeth, gan gynnwys o ganlyniad i'r cynnig i ddefnyddio pedwar safle trosglwyddydd, a bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer tri ohonynt. Roedd cynllun y prosiect hefyd braidd yn uchelgeisiol o ran rhagdybiaethau a wnaed ar faterion megis amserlenni ar gyfer caniatâd cynllunio. Ar ben hynny, roedd rhai risgiau o orymestyn neu i newidiadau corfforaethol fod yn ofynnol cyn lansio yng ngoleuni'r cyfyngiadau ar gyfranogiad yn adran 44A, ac roedd y gwneuthurwyr

---

[1] Gan fod y materion yn ymwneud ag ardal amlblecs ar raddfa fach Caerfaddon a Midsomer Norton, mae'r lliniaru'n dibynnu ar ganlyniad y cais am drwydded ar gyfer yr ardal honno, a gafodd ei hysbysebu ar yr un pryd â Chasnewydd a Chas-gwent ond nad yw wedi cael ei ddyfarnu eto.

penderfyniadau yn ymwybodol bod cyfranogwyr yn y grŵp wedi wynebu heriau sylweddol o ran cyflawni dyddiadau lansio mewn mannau eraill. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o hyder yng ngallu'r ymgeisydd i sefydlu'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan y cynllun busnes a chan y lefelau o arbenigedd a phrofiad perthnasol a oedd yn amlwg yn y cais. Yn gyffredinol, roedd y gwneuthurwyr penderfyniadau o'r farn y dylai cyfuniad o ymrwymiad gan gyfranddalwyr lleol a'r gwersi a ddysgwyd o lansiadau amlblecs radio ar raddfa fach blaenorol gan y cyfranddalwyr nad ydynt yn rhai lleol fod yn ddigon i alluogi Gwent Digital i sefydlu'r gwasanaeth gyda'r lefel o ddarpariaeth a ragwelir o fewn y cyfnod o 18 mis fel y nodir yn y ddeddfwriaeth.

Mewn perthynas ag adran 51(2)(ca), nododd Ofcom fod dau unigolyn a oedd yn bwriadu darparu gwasanaethau C-DSP yn gyfranogwyr yn y cwmni ymgeisio, sef Gwent Radio DAB Limited a Newport City Radio CIC. Nododd y gwneuthurwyr penderfyniadau fod y gwasanaethau arfaethedig yn wasanaethau ar-lein presennol, gyda rhagolygon gweddol dda o fod ar gael ar yr amlblecs o'r lansio, ac er bod cyfranddaliadau'r cyfranogwyr yn fach (10% yr un), mae eu cyfraniad yn cael ei gefnogi drwy eu cynnwys ar fwrdd y cyfarwyddwyr.

Mewn perthynas ag adran 51(2)(f), roedd Ofcom wedi ystyried tystiolaeth o alw neu gefnogaeth gan bobl sy'n darparu neu'n cynnig darparu gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol neu leol (gwasanaethau C-DSP a DSP) yn yr ardal a hysbysebwyd. Darparwyd penawdau telerau mewn perthynas â thri gwasanaeth C-DSP arfaethedig sydd i gyd yn wasanaethau ar-lein cyfredol (Radio Gwent a Radio Dinas Casnewydd a ddarperir gan gyfranogwyr yn yr ymgeisydd, a SW20 a ddarperir gan SW20 Radio Limited). Hefyd, cafodd penawdau telerau eu derbyn gan ddarpar ddarparwyr 14 o wasanaethau DSP eraill. Roedd y gwneuthurwyr penderfyniadau o'r farn, er bod rhai gwasanaethau arfaethedig yn gysylltiedig â chyfranogwyr yn y cais, bod hyn yn gyffredinol yn cynrychioli lefel iach o alw yng nghyd-destun cadw capasiti eithaf isel ar gyfer pedwar gwasanaeth C-DSP. Roeddent hefyd yn nodi'n gadarnhaol bod gwasanaethau ar-lein yn cymryd y cyfle i ehangu cyrhaeddiad drwy DAB.

Yng nghyswllt adran 51(2)(g) ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, roedd Ofcom yn fodlon bod yr ymgeisydd drwy gontractio neu gynnig contractio gydag unigolion yn darparu neu'n cynnig darparu gwasanaethau rhaglenni sain digidol lleol neu gymunedol, wedi gweithredu mewn modd a luniwyd i sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny.

Nodir nad yw dyfarnu trwydded yn rhoi'r hawl i'r sawl y dyfernir trwydded iddo weithredu holl elfennau'r cynllun technegol a gyflwynwyd i Ofcom fel rhan o'r cais llwyddiannus. Bydd Ofcom yn trin cynigion yn y cynllun hwnnw, y gwnaed y dyfarniad ar eu sail, fel pethau y mae'r ymgeisydd llwyddiannus wedi ymrwymo i'w cyflawni o fewn y cyfnod o 18 mis a ganiateir rhwng dyfarnu a lansio. Fodd bynnag, am resymau cynllunio sbectrwm, efallai y bydd Ofcom hefyd yn gofyn am ddiwygio cynigion rhwng dyfarnu a rhoi trwydded.

*Ionawr 2023*